**Eluned Morgan AC/AM**
**Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol**
**Minister for International Relations and the Welsh Language**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-873
Ein cyf/Our ref EM/05376/19

Janet Finch-Saunders AC
Aelod Cynulliad dros Aberconwy
Cadeirydd – Pwyllgor Deisebau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Caerdydd
CF99 1NA

senedddeisebau@cynulliad.cymru

28 Mehefin 2019

Annwyl Janet,

Diolch am eich llythyr ynglŷn â deiseb P-05-873 – 'Gwersi Cymraeg am ddim i bobl Cymru'.

Mae'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn anelu at ddenu mwy o unigolion i ddysgu Cymraeg ac, yn hollbwysig, sicrhau bod yr unigolion hyn yn parhau i ddysgu er mwyn cyrraedd pwynt lle mae modd iddynt ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg mewn sefyllfaoedd go iawn.

Er bod terfyn i'r nifer o ddysgwyr sy'n gallu cymryd rhan yn y rhaglen Dysgu Cymraeg, mae'r Ganolfan yn gweithio yn agos gyda'i rhwydwaith o 11 darparwr er mwyn gwneud y defnydd gorau o'r capasiti.

Mae Cymraeg wrth gwrs yn rhan o'r cwricwlwm cenedlaethol i bob dysgwr oedran ysgol hyd at Gyfnod Allweddol 4. Fe lansiodd Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol 'Clwb Cwtsh' yn 2018 – mae'r rhaglen hon yn darparu cyrsiau rhad ac am ddim i rieni, gwarchodwyr ac aelodau eraill o'r teulu i'w galluogi i gefnogi datblygiad ieithyddol y plentyn. Fe wnaeth dros 1,000 o oedolion gymryd rhan yn y rhaglen yn ystod ei flwyddyn gyntaf.

Mae cryfhau'r gweithlu addysgu Cymraeg i Oedolion ac adeiladu capasiti ychwanegol yn flaenoriaeth i'r Ganolfan. Er mwyn ymateb i'r materion hyn, fe gyhoeddodd Gynllun Datblygu'r Gweithlu yn 2018 sy'n ffocysu ar bedair thema:

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

- codi proffil y maes a chreu llwybrau gyrfa atyniadol
- cynnig strwythurau addas ac ystyrlon
- datblygu gweithlu cymwysedig a phwrpasol
- cynnal perfformiad aruchel.

Bydd y cynllun hwn yn cael ei weithredu mewn partneriaeth â'i ddarparwyr erbyn 2020.

Cofion gorau

**Eluned Morgan AC/AM**
Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol
Minister for International Relations and the Welsh Language